Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Rhifyn 2 Tachwedd 2010 November

Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

Cynllun Gwella'r Ysgol / School Improvement Plan

Y prif dargedau sydd ar Gynllun Gwella'r Ysgol eleni yw-

- Dadansoddi data asesiadau yn fwy bwriadus, er mwyn ein galluogi i gymharu ein perfformiadau â pherfformiadau ysgolion, neu deulu o ysgolion tebyg
- Ehangu rhaglen ddarllen Cymraeg disgyblion, yn benodol yng nghyfnod allweddol 2, a datblygu eu gwybodaeth am lyfrau, awduron a beirdd
- Cynyddu a gwella'r wybodaeth a roddir i rieni disgyblion ADY am gynnydd eu plant a'r modd y darperir cefnogaeth ychwanegol iddynt;
- Datblygu dealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng cynllunio tymor byr a chanolig ac asesu.
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion – Codi ymwybyddiaeth yn y Fframwaith a sicrhau fod yr ysgol yn rhan o Rwydweithiau Ymarfer Proffesiynol newydd.
- Sicrhau cynnydd yn y deilliannau a'r ddarpariaeth o ran Datblygiad Mathemategol yn y Blynyddoedd Cynnar
- Buddsoddwyr Mewn Pobl – sicrhau ail asesiad llwyddiannus.

The main targets in the School Improvement Plan this year are-

- Analyse assessment data more purposefully, in order to enable the school to compare its performance with performances of similar schools, or family of schools
- Expand pupils' Welsh reading programme, specifically in key stage 2, and develop their knowledge of books, authors and poets
- Provide additional information on pupil progress and the additional support that is provided for them, to parents of children on the SEN Code
- Strengthen the relationship between short term planning, medium term planning, assessment and moderation.
- School Effectiveness Framework –Staff trained and aware of framework requirements. Ensure that school is working in partnership with other schools and establishments.
- Improvement in Mathematical Development within the Foundation Phase (Early Years)

- Successful review of Investors In People

Ras Feicio Rhithwir / Virtual Bike Race

Llongyfarchiadau a diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr ysgol yn y ras feicio. Melin Gruffydd oedd y pencampwyr! Fel gwobr, mi fydd Sioe Feiciau BMX yn perfformio i'r plant.

Congratulations and a big thank you to everyone to took part in the Virtual Bike Race. Melin Gruffydd were the Bike It winners! The first prize is a BMX Bike Show for all pupils.

Bws Mini / Mini Bus

Unwaith eto mae Cymdeithas Rieni Melin Gruffydd yn rhoi cyfraniad sylweddol i'r ysgol. Y tro hwn mae'r Gymdeithas wedi cytuno i roi bws mini i'r ysgol. Mae hyn yn rhodd arbennig a diolchwn i'r Gymdeithas am ei haelioni. Diolch i bawb hefyd sy'n mynychu ac yn cefnogi gweithgareddau'r Gymdeithas.

Once again, the school's PTA are making a significant contribution to Melin Gruffydd. The PTA have agreed to donate a mini bus to the school. This is a wonderful gesture and we thank them for their generosity. Thanks also to everyone that supports the PTA events.